PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL

Hysbysiad Penderfyniad – Cyfarfod, 14 Gorffennaf, 2022.

Mae-r Agenda ar gael yma.

Mae recordiad y cyfarfod ar gael yma.

Yn Bresennol: Y Cynghorydd S.M. Hanks (Cadeirydd); Cynghorydd M.R. Wilson (Is-Gadeirydd); Cynghorwyr A. Asbrey, J. Aviet, R.M. Birch, S. Campbell, C.A. Cave, S.J. Haines, N.P. Hodges, J. Lynch-Wilson a S.D. Perkes.

Cynrychioli Cynghorau Tref a Chymuned: Y Cynghorwyr S. Hodges (Cyngor Tref y Barri), Y Cynghorwyr J. Andrew Y Bont-faen gyda Chyngor Tref Llanfleiddan), Y Cynghorwyr G. Thomas (Cyngor Tref Llanilltud Fawr), B. Morris (Cyngor Cymuned Tregolwyn), Dr. A. Rees (Cyngor Cymuned Llancarfan), D. Reed (Cyngor Cymuned Llan-gan - Eilydd), M. Narusberg (Cyngor Cymuned Llan-faes), G. Marks Cyngor Cymuned Llanfihangel), G. Kellen (Cyngor Cymuned Pendeulwyn), S.M. Toker (Cyngor Cymunedol Sain Tathan), W. Howells (Cyngor Cymunedol Sain Siorys a Llansanffraid-ar-Elái), I. Perry (Cyngor Cymuned San Nicolas a Thresimwn), N. Parry (Cyngor Cymuned Sili a Larnog) a C. Hawkins (Cyngor Cymuned y Wig).

Hefyd yn bresennol: Cynghorwyr I. Buckley, C.P. Franks, C. Iannucci, G. John, C.Stallard and E. Williams.

EITEM AGENDA 1. YMDDIHEURIADAU AM ABSENOLDEB –

Derbyniwyd y rhain gan Gynghorwyr H.M. Payne (Cyngor Bro Morgannwg), K. Hatton (Cyngor Cymuned Dinas Powys), R. Thomas (Cyngor Cymuned Llandŵ) a S. Rich ((Cyngor Cymuned Llan-gan.

EITEM AGENDA 2. COFNODION –

ARGYMHELLWYD – CYMERADWYO cofnodion y cyfarfod a gynhaliwyd ar 25 Ionawr, 2022 fel cofnod cywir.

EITEM AGENDA 3. DATGANIADAU BUDDIANT –

Ni dderbyniwyd unrhyw ddatganiadau buddiant.

EITEM AGENDA 4. CYFLWYNIAD I'R PWYLLGOR CYSWLLT CYMUNEDOL –

CYTUNWYD – Nodi'r cyflwyniad PowerPoint sy'n cynnig cyflwyniad i'r Pwyllgor.

EITEM AGENDA 5. MATERION HEDDLU –

CYTUNWYD - Diolch i'r Arolygydd McDean am ei amser a'i ddiweddariad ar lafar.

EITEM AGENDA 6. CAIS AM YSTYRIAETH GAN GYNGOR CYMUNED LLANGAN – GWYBODAETH MEWN ADRODDIADAU TROSEDD A ADRODDWYD GAN YR HEDDLU I GYNGHORAU CYMUNED **–**

CYTUNWYD -

(1) Rhoi crynodeb ysgrifenedig o sylwadau'r Pwyllgor, fel y'u nodir yn y cofnod uchod, i'r Arolygydd McDean yn dilyn y cyfarfod.

(2) Rhannu gwybodaeth gyswllt Arolygwyr Cymdogaeth a Swyddogion Cymorth Cymunedol Heddlu Bro Morgannwg â holl Aelodau Etholedig a Chlercod Cynghorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg yn dilyn y cyfarfod.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Sicrhau bod pryderon y Pwyllgor mewn perthynas â Phresenoldeb Swyddogion yr Heddlu, Rhannu Data a Gwybodaeth Gyswllt Swyddogion yr Heddlu sydd ar gael i Aelodau Etholedig a Chynghorau Tref a Chymuned Bro Morgannwg yn cael eu mynegi gyda'r gwasanaeth drwy'r Arolygydd McDean ar gyfer gwella yn y dyfodol.

(2) Annog proses fwy effeithlon o rannu data ystadegol, gwybodaeth leol ac adroddiadau am droseddau rhwng Cynghorwyr a swyddogion yr Heddlu.

EITEM AGENDA 7: MATERION GWASANAETH TÂN AC ACHUB –

CYTUNWYD - Diolch i Mr Hadfield am ei amser a'i ddiweddariad ar lafar.

EITEM AGENDA 8. GWASANAETH TÂN AC ACHUB DE CYMRU – YMOSODIADAU CRIW GWASANAETH CYHOEDDUS: GRADDFA AC YMATEB –

CYTUNWYD – Diolch i Mr Hadfield am ei gyflwyniad llawn gwybodaeth ar Ymosodiadau ar Griwiau Gwasanaeth Cyhoeddus yn Ardal De Cymru.

EITEM AGENDA 9. ENWEBU CYNRYCHIOLWYR O GYNGHORAU TREF A CHYMUNED AR GYFER Y BWRDD GWASANAETHAU CYHOEDDUS, CYDBWYLLGOR CYSWLLT Y SECTOR GWIRFODDOL A PHANEL GWERTHUSO'R GRONFA CYMUNEDAU CRYF (PW) –

CYTUNWYD -

(1) Penodi'r Cynghorydd Shirley Hodges (Cyngor Tref y Barri) fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref a Chymuned ar Fwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus Cyngor Bro Morgannwg am ddwy flynedd, hyd at fis Gorffennaf 2024.

(2) Penodi'r Cynghorydd Conway Hawkins (Cyngor Cymuned y Wig) fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref a Chymuned ar Gydbwyllgor Cyswllt Sector Gwirfoddol Cyngor Bro Morgannwg hyd at etholiadau Llywodraeth Leol 2027.

(3) Penodi'r Cynghorydd Michael Cuddy (Cyngor Tref Penarth) fel Cynrychiolydd y Cyngor Tref ar Banel Gwerthuso Cronfa Grant Cymunedau Cryf Bro Morgannwg hyd at etholiadau Llywodraeth Leol 2027.

(4) Penodi'r Cynghorydd David Reed (Cyngor Cymuned Llan-gan) fel Cynrychiolydd y Cyngor Cymuned ar Banel Gwerthuso Cronfa Grant Cymunedau Cryf Bro Morgannwg hyd at etholiadau Llywodraeth Leol 2027.

<u>Y rhesymau dros yr argymhellion</u>

(1) Galluogi cynrychiolydd o'r Pwyllgor Cyswllt Cymunedol i gael ei benodi i'r Bwrdd Gwasanaeth Cyhoeddus er mwyn sicrhau ymgysylltiad effeithiol â Chynghorau Tref a Chymuned a glynu wrth y Canllawiau Statudol ar gyfer Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru).

(2) Sicrhau cyswllt gwerthfawr rhwng y Pwyllgor Cyswllt Cymunedol a Chydbwyllgor Cyswllt y Sector Gwirfoddol.

(3 a 4) Galluogi Cynghorau Tref a Chymuned i gymryd rhan yn y gwaith o werthuso ceisiadau i Gronfa Grant Cymunedau Cryf y Cyngor.

EITEM AGENDA 10 CAIS AM YSTYRIAETH GAN GYNGOR SAN NICOLAS A THRESIMWN – ARIAN A106–

CYTUNWYD – Nodi cynnwys adroddiad cynhwysfawr y Swyddog.

<u>Y rheswm dros yr argymhelliad</u>

Mewn ymateb i'r Cais am Ystyriaeth a godwyd ar ran y Pwyllgor gan Gyngor Cymuned Sain Nicolas gyda Thresimwn.

EITEM AGENDA 11 CAIS AM YSTYRIED GAN GYNGOR TREF LLANILLTUD FAWR – GORCHMYNION CADW COED –

CYTUNWYD – Nodi cynnwys adroddiad cynhwysfawr y Swyddog.

Y rheswm dros yr argymhelliad

Mewn ymateb i'r Cais am Ystyriaeth a godwyd ar ran y Pwyllgor gan Gyngor Tref Llanilltud Fawr.